OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 784 (Cy.70) (C.51)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 24 Mawrth 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 173(3) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008(**1**):

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi ac yn dod i ben ar y 31 Awst nesaf;

ystyr "DSFfY 1998" ("*the SSFA 1998*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg a Sgiliau 2008.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Mawrth 2009

2. Daw'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2009—

(a) adran 162(1), (2), (3)(a), (3)(b) a (4) i (10).

3. Daw'r darpariaethau canlynol o'r Ddeddf i rym, yn ddarostyngedig i erthygl 4, ar 31 Mawrth 2009—

(a) adrannau 150, 152 a 153;

(b) adran 169(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau yn Atodlen 1 a bennir isod;

(c) adran 169(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau yn Atodlen 2 a bennir isod;

(ch) yn Atodlen 1, paragraffau 54, 55, 59(7), 66 a 67, ac, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny, paragraff 53;

(**1**) 2008 p.25.
(**2**) 1998 p.31.